**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
13 Medi 2023

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") at y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001"). Maent hefyd yn diwygio Rheoliadau 2001 i ddarparu ar gyfer maint, cyfansoddiad a thrafodion pwyllgorau safonau cyd-bwyllgorau corfforedig. Maent yn cywiro dau wall bychan yn nhestun Cymraeg rheoliadau 2001. Mae'r gwall cyntaf yn rheoliad 7(1) o Reoliadau 2001 ac fe'i cywirwyd drwy roi'r gair "swyddog" yn lle'r gair anghywir "aelod" fel y nodir yn rheoliad 6 (a) o Reoliadau 2023. Gwall o'r un natur yw'r ail wall, yn rheoliad 7(2) o Reoliadau 2001, ac fe'i cywirwyd drwy gyfieithu'r diwygiad yn rheoliad 6(c) o Reoliadau 2023. Er nad yw'n gyfieithiad uniongyrchol o'r fersiwn Saesneg, mae iddo'r un effaith gyfreithiol yn y ddwy iaith.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Mae’n bosibl y bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad am nodi bod yr Offeryn Statudol hwn yn rhan o becyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig ac sydd â'r nod o sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddu a llywodraethu â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Mae'n ffurfio rhan o grŵp o Reoliadau a Gorchmynion sy'n cymhwyso Rhan 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ("Deddf 2000") i gyd-bwyllgorau corfforedig.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 2021 yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng Cynghorau bwrdeistref sirol sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Cafodd setiau unigol o Reoliadau Sefydlu a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf 2021 eu cymeradwyo gan y Senedd i greu pedwar cyd-bwyllgor corfforedig o 1 Ebrill 2021 sy'n cydffinio ag ardaloedd bargeinion dinesig a thwf Cymru.

Mae adran 53(11) o Ddeddf 2000 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer maint, cyfansoddiad a gweithdrefnau pwyllgor safonau ar gyfer awdurdod perthnasol. Mae cyd-bwyllgor corfforedig yn awdurdod perthnasol at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf 2000 (adrannau 49(6) ac 83). Arferwyd y pŵer yn adran 53(11) i wneud Rheoliadau 2001 ac felly dibynnir arno, ar y cyd ag adran 105 (2)(a) a (b) a (3), i wneud y diwygiadau i'r Rheoliadau hynny.

Mae adran 105(2)(a) yn caniatáu i unrhyw reoliadau a wneir o dan Ddeddf 2000 gynnwys darpariaeth ddeilliannol neu atodol, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn fod hynny'n angenrheidiol neu'n hwylus. Mae adran 105(2)(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth wahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o awdurdod. Mae adran 105(3) yn nodi bod darpariaeth a wneir o dan is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth i addasu unrhyw ddeddfiad (p'un a gaiff ei basio neu ei wneud).

Mae swyddogaethau perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn Neddf 2000, bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p. 32).

Mae’r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn rhinwedd adran 105(5) o Ddeddf 2000.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff corfforedig, a sefydlir drwy reoliadau, ac maent yn cynnwys y Cynghorau bwrdeistref sirol sir a’r Cynghorau bwrdeistref sirol bwrdeistref sirol a bennir yn y rheoliadau sefydlu. Mewn rhai amgylchiadau mae awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn aelodau o gyd-bwyllgor corfforedig hefyd. Lle bo hyn yn wir, fe'i nodir yn rheoliadau sefydlu'r cyd-bwyllgor corfforedig perthnasol.

Mae Rheoliadau 2023 yn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf 2021 at y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rheoliadau 2001. Mae hyn yn sicrhau, oni nodir yn wahanol, bod Rheoliadau 2001 yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig mewn perthynas â phwyllgorau safonau a sefydlir gan y cyd-bwyllgorau corfforedig hynny fel y byddai i awdurdodau perthnasol eraill. Mae rhywfaint o ddarpariaeth benodol wedi'i gwneud mewn perthynas â chyd-bwyllgorau corfforedig lle nad yw Rheoliadau 2001 fel y'u drafftiwyd yn cyd-fynd â strwythur aelodaeth cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae Rheoliadau 2023 yn darparu ar gyfer maint, cyfansoddiad a thrafodion pwyllgorau safonau a sefydlir gan gyd-bwyllgorau corfforedig. Maent hefyd yn ymdrin â dau wall ieithyddol bychan sy'n ymddangos yn rheoliad 7(1) a (2) o Reoliadau 2001.

Mae Rheoliadau 2023 yn rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n sail i bob cyd-bwyllgor corfforedig ac sy'n rhoi'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar waith ar gyfer gweinyddu a llywodraethu cyd-bwyllgorau corfforedig yn effeithiol.

Y bwriad cyffredinol yw y bydd cyd-bwyllgor corfforedig yn cael ei drin fel rhan o'r “teulu llywodraeth leol” ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, neu bwerau a dyletswyddau tebyg, yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

## 5. Ymgynghori

Mae'r dull cyffredinol o ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i gyd-bwyllgorau corfforedig a'r dyletswyddau a ddylai fod yn gymwys wedi'i ddatblygu ar y cyd â Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a nifer o rwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys, er enghraifft, Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad ar Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 rhwng 10 Tachwedd 2021 a 22 Rhagfyr 2021 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r dull arfaethedig o roi effaith lawn i gymhwysiad Rhan 3 o Ddeddf 2000 i gyd-bwyllgorau corfforedig ac roedd yn nodi'n glir y gorchmynion a'r rheoliadau penodol y byddai'n rhaid eu diwygio wedi hynny. Roedd pawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwnnw yn cytuno â'r dull a amlinellwyd.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd-orllewin (Cymru) 2021 yn asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r cyd-bwyllgorau corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, ystyriodd yr asesiad effaith rheoleiddiol y bwriad polisi cyffredinol y  dylid trin cyd-bwyllgorau corfforedig fel rhan o'r “teulu llywodraeth leol”. Felly, cafodd y costau sy'n gysylltiedig â chymhwyso Rheoliadau 2001 i gyd-bwyllgorau corfforedig eu hystyried fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar y rheoliadau sefydlu eu hunain.

Mae copi o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 ar gael fel rhan o'r ddogfennaeth berthnasol sy’n cyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.